

Strategaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio

Gogledd Cymru

2021 – 2025

Y Diweddraf am y Cynnydd – Ebrill 2024

This document is also available in English

Cynnwys

1.	Crynodeb Gweithredol 2021 – 25.....	3
2.	Cyflwyniad.....	4
3.	Llywodraethu.....	5
4.	Meysydd cynnydd penodol.....	7
5.	Cynllun Cyflawni a’r wybodaeth ddiweddaraf.....	8 - 21

1. Crynodeb Gweithredol

Ein gweledigaeth:

'Mae pobl gogledd Cymru yn gallu byw bywydau diogel, cyfartal a di-drais mewn cymunedau heb gamdriniaeth na chamfanteisio'.

Mae gogledd Cymru yn cydweithio i fynd i'r afael â phob agwedd ar drais yn erbyn merched, trais domestig, trais rhywiol, caethwasiaeth fodern, masnachu mewn pobl, troseddau mewnfudo cyfundrefnol a chamfanteisio.

Mae Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru yn cynrychioli'r holl bartneriaid statudol ac anstatudol ledled y rhanbarth, gydag ymrwymiad i ddull cydweithredol a chydlynol o fynd i'r afael â phob elfen ar fregusrwydd a chamfanteisio.

Mae Strategaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru 2021-2025 yn cynnwys dull amlasiantaeth o fynd i'r afael â bregusrwydd a chamfanteisio yng ngogledd Cymru. Mae agendau Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) a Chaethwasiaeth Fodern wedi'u halinio â'r pedwar Amcan Strategol:

PARATOI ATAL GWARCHOD YMROI

Mae'r strategaeth yn galluogi ac yn cefnogi arferion a syniadau arloesol, yn ogystal â chefnogi gwasanaethau i ddarparu pecyn cefnogi cyflawn i ddioddefwyr, goroewyr a'u teuluoedd. Mae'r strategaeth hefyd yn cefnogi cymunedau er mwyn hyrwyddo ethos o ddiogelwch, cydraddoldeb a lles ac yn sicrhau bod cyflawnwyr yn cael eu dal i gyfrif.

2. Cyflwyniad

Datblygwyd Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru yn 2020, gan ddod â'r Bwrdd Strategol VAWDASV a'r Bwrdd Caethwasiaeth Fodern ynghyd, gyda'r nod o gael dull mwy cydlynol mewn perthynas â phob maes o gamfanteisio.

Yn 2020/21 datblygwyd strategaeth newydd a oedd yn rhoi nodau strategol clir ar gyfer y rhanbarth. O dan y strategaeth fe geir Cynllun Cyflawni sy'n cynnwys amcanion tymor byr, tymor canolig a hirdymor y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio. Mae hwn yn cael ei ddiweddarau'n barhaus, i sicrhau cynnydd ac i fonitro canlyniadau.

Mae'r Strategaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio yn dangos yn glir bod gogledd Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â chamfanteisio ar y bobl fwyaf diamddiffyn yn ein cymdeithas, ac mae'n flaenoriaeth i bob partner yn y sectorau statudol ac anstatudol.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio yn rhwydwaith strategol o asiantaethau wedi'u halinio ar draws chwe awdurdod lleol y gogledd (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam), ac yn cynnwys sefydliadau statudol, anstatudol a thrydydd sector.

Pwrpas y bartneriaeth strategol yw cynhyrchu ymateb cydlynol, effeithlon a chynhyrchiol i fynd i'r afael â thrais yn erbyn merched, trais domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) a chaethwasiaeth fodern, masnachu mewn pobl, troseddau mewn fudo cyfundrefnol a chamfanteisio. I gyflawni hyd rydym yn bwriadu:

- Cydweithio i sicrhau bod unigolion yn ein cymunedau a all fod yn ddiamddiffyn a/neu'n dioddef camfanteisio yn cael eu hadnabod a'u clywed er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau ar eu cyfer.
- Creu ymddiriedaeth a magu hyder drwy weithio ochr yn ochr ac o fewn ein cymunedau

Mae'r Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio wedi'i ddylunio i nodi a thywys gwaith y bartneriaeth, yn ogystal â goruchwylio gwaith pob asiantaeth bartner wrth gyflawni amcanion strategol y strategaeth ranbarthol a deddfwriaethau cenedlaethol perthnasol.

Bydd y strategaeth bresennol yn cael ei diweddaru yn ystod 2024/25 a bydd hyn yn dechrau gyda chyfnod o fyfyrion ar yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni dros y pedair blynedd diwethaf, yn ogystal â'r hyn sy'n dal angen ei ddatblygu. Byddwn yn edrych ar VAWDASV yn yr ystyr ehangaf, gan ganolbwyntio ar bob agwedd ar gam-drin domestig a thrais rhywiol, yn ogystal ag ystyried effaith casineb at ferched sy'n amlwg ac wedi'i fewnoli, dylanwad y cyfryngau cymdeithasol ar bobl ifanc a ffyrdd arloesol o fynd i'r afael â chyflawniad camdriniaeth.

3. Llywodraethu

Mae Bwrdd Partneriaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru yn atebol am y Strategaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio. Wedi'i gadeirio gan y Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, mae'r Bwrdd Partneriaeth Strategol yn darparu trosolwg, cyfeiriad a chefnogaeth i bartneriaid lleol i sicrhau diwylliant o gydweithio. Mae'r Bwrdd yn cwrdd bob chwarter i fonitro a gwerthuso'r cynnydd tuag at gyrraedd a chyflawni'r nodau a'r amcanion strategol a geir yn y Cynllun Cyflawni a'r Camau Gweithredu. Yn eu tro, mae'r ffrydiau gwaith yn mynd i'r afael â nodau ac amcanion y Cynllun Cyflawni ac yn symud gwaith y meysydd rhaglen yn ei flaen, gan adlewyrchu'r gwaith dan gyfarwyddyd ffrydiau gwaith cenedlaethol VAWDASV. Mae'r gwaith yma wedyn yn cael ei adrodd yn ôl i'r Bwrdd Strategol a Llywodraeth Cymru yn chwarterol.

Mae'r ffrydiau gwaith o dan y Bwrdd wedi cael eu dwyn ynghyd dros y 12 mis diwethaf ac maent ar gamau amrywiol o ran eu datblygiad:

- **Grŵp Llywio Rhanbarthol ADAPT a Chynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC)** - mae'r grŵp hwn yn cyfarfod bob chwarter i sicrhau cysondeb o fewn y rhanbarth ar gyfer y cyfarfodydd MARAC ac ADAPT, ond mae'r grŵp hefyd yn cyfarfod yng nghanol bob chwarter i edrych ar sampl o achosion ar hap sydd wedi cael eu cyflwyno ger bron MARAC, er mwyn sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod partneriaid yn ymgysylltu'n briodol.
- **Grŵp Safleoedd Tystiolaeth o Bell** - mae'n cyfarfod bob chwarter i sicrhau bod safleoedd tystiolaeth o bell yn cael eu defnyddio'n briodol ac i dynnu sylw at unrhyw faterion i'w datrys rhwng partneriaid.
- **Grŵp Strategol Trais Rhywiol** - mae'n cyfarfod bob chwarter i sicrhau bod partneriaid cyfiawnder troseddol yn gweithio gyda'r sector arbenigol i fynd i'r afael ag anghenion holl ddiodefwr a goroeswyr trais rhywiol.
- **Grŵp Comisiynu (gwneud penderfyniadau)** - mae'n cyfarfod pan fo cyllid ar gael i edrych ar fanylion gwasanaeth a cheisiadau am gyllid.

- **Grŵp Ymchwil, Bylchau ac Anghenion** - mae'n cyfarfod bob chwarter i edrych ar ddata a gwaith ymchwil, bylchau o ran darpariaeth, meysydd i'w datblygu ac unrhyw dueddiadau lleol, rhanbarthol neu genedlaethol. Maent yn gyfrifol am ddiweddarau Asesiad o Anghenion VAWDASV Rhanbarthol.
- **Ffrwd Waith Cyflawnwyr** - mae'r ffrwd waith hon wedi'i gohirio nes y bydd yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Cyflawnwyr wedi'i gynnal. Bydd y grŵp hwn wedyn yn gyfrifol am weithredu'r hyn sy'n cael ei ddysgu o'r adolygiad.
- **Plant a Phobl Ifanc** - mae'r ffrwd waith hon wedi'i gohirio nes y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â sefyllfa'r gwaith mewn perthynas â strwythur y Bwrdd Diogelu a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae Cadeirydd y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio yn cwrdd â chymheiriaid o Fwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel, Byrddau Diogelu (Oedolion/Plant), Bwrdd Herio, Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, Bwrdd Cynllunio Ardal a'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol i sicrhau bod y ffrydiau gwaith yn alinio.

4. Meysydd cynnydd / pryder penodol yn 2023/24

Mae 2023/24 wedi gweld cryn gynnydd o ran nifer yr achosion sy'n cael eu hatgyfeirio at MARAC yn ogystal â'r rhai hynny sy'n cael eu atgyfeirio'n uniongyrchol at y sector arbenigol. Mae hyn wedi rhoi pwysau sylweddol ar bob partner wrth i ni geisio sicrhau dull strategol i gefnogi'r rhai hynny sydd wedi'u heffeithio gan VAWDASV yng Ngogledd Cymru. Mae swm y cyllid sy'n dod i Ogledd Cymru gan Lywodraeth Cymru, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref wedi bod dros £1m yn ystod 2023/24 a hynny heb gynnwys yr ymddiriedolaethau elusennol ac ati sy'n helpu i gefnogi ein sector arbenigol. Er hyn, mae rhestrau aros wedi cynyddu ac mae cymhlethdod achosion hefyd wedi newid - mae dioddefwyr a'u teuluoedd yn dioddef effeithiau argyfwng economaidd ac argyfwng tai, ar ben eu problemau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â VAWDASV.

Mae'r Grŵp Llywio MARAC Rhanbarthol wedi bod yn cynnal sesiynau samplu ar hap yn rheolaidd, gan edrych ar achosion o'r cam atgyfeirio i reoli risg. Mae hyn wedi bod yn hynod fuddiol ac mae wedi arwain at amlgu sawl maes o welliant ar gyfer bob partner, yn ogystal â'r angen am waith diogelu ychwanegol mewn rhai achosion. Bydd hon yn broses barhaus, er mwyn parhau i wella prosesau.

Mae cyfuno'r ddyletswydd Trais Difrifol a'r rhaglen VAWDASV yng Ngogledd Cymru wedi bod yn newid mawr ym meddylfryd y rhanbarth ond mae wedi arwain at waith effeithiol iawn. Mae'r strategaethau wedi cael eu cyfuno i sicrhau bod yr holl bartneriaid yn deall eu rhwymedigaethau ac yn gweithio tuag at gyflawni'r un amcanion. Mae amcanion y ddyletswydd Trais Difrifol sy'n ymwneud â VAWDASV ar gyfer Gogledd Cymru yn seiliedig ar atal ar y cam cyntaf a gweithio gyda phlant a phobl ifanc i edrych ar eu hagweddau a'u gwerthoedd o amgylch perthnasau. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ffocws presennol ar ein gwaith gyda dynion a bechgyn ac mae'r strategaethau'n cyd-fynd yn daclus iawn.

Mae gweithio gyda dynion a bechgyn wedi bod yn flaenoriaeth yn 2023/24 a bu i Ogledd Cymru gynnal sesiwn 'She Is Not Your Rehab', sef mudiad o Seland Newydd, a chroesawu'r Athro Michael Flood o Brifysgol Canberra, Awstralia. Roedd 'She Is Not Your Rehab' yn darparu hyfforddiant ar gyfer grŵp mawr o weithwyr proffesiynol, yn ogystal â sesiynau gyda phobl ifanc yng Ngholeg Cambria, yn edrych ar sut i fynd i'r afael â chamdriniaeth gyda dynion ifanc, a sut i'w cefnogi i fynd i'r afael â'u profiadau eu hunain o drawma, heb roi bai ar y merched yn eu bywydau. Roedd yr ymateb gan y dynion ifanc yn y gynulleidfa yn arbennig, gyda llawer ohonynt yn mynd ar y cyfryngau cymdeithasol yn syth ar ôl y digwyddiad i rannu eu profiadau eu hunain ac i ddatgan sut y byddant yn ail ystyried eu hymddygiad yn y dyfodol. Yn dilyn y llwyddiant hwn, roedd yr ymweliad a darlith gan yr Athro Flood ar sut i siarad gyda dynion a bechgyn ar raddfa ehangach am gasineb yn erbyn merched, dylanwad y cyfryngau cymdeithasol a'r casgliad o wefannau, blogiau a fforymau sy'n hyrwyddo gwrywdod, casineb yn erbyn merched, a gwrthwynebiad i ffeministiaeth, yn bwerus iawn ac mae wedi arwain at drafodaeth llawer ehangach fel rhanbarth am sut y gellir cyflwyno hyn ar draws ysgolion a sefydliadau eraill i bobl ifanc.

Mae pryderon tai wir wedi dod i'r amlwg yn ystod 2023/24, gyda rhai Awdurdod Lleol yn cyrraedd pen eu tennyn ac yn datgan diffyg tai addas ar gyfer dioddefwyr a'u plant. Mae hyn wedi'i gyfuno â chyllideb sefydlog ar gyfer y Grant Cymorth Tai (gyda thoriadau mewn rhai meysydd), felly mae'r gefnogaeth draddodiadol sy'n ymwneud â lloches wedi dioddef. Er hyn, rydym wedi gweld cynnydd mewn cyllid i Ogledd Cymru ar gyfer unedau ac yn ystod y cyfnod hwn, gwelwyd unedau newydd yn cael eu hagor yng Nghonwy, gan alluogi teuluoedd i gael cefnogaeth angenrheidiol, yn ogystal â'r urddas o gael eu drws ffrynt eu hunain. Gwelwyd datblygiad yr unedau brys tymor byr cyntaf ar gyfer y rhai hynny a oedd yn ffoi rhag camdriniaeth, sy'n eu galluogi nhw i ddod â'u plant, anifeiliaid anwes ac ati. Mae'r unedau hyn ar gael i gefnogi dioddefwyr sy'n ffoi ar y penwythnos neu yng nghanol nos ac maent yn cynnwys cyfleusterau coginio a lle i'r teulu cyfan, sy'n eu hatal rhag gorfod mynd i westai neu westai gwely a brecwast, sy'n anaddas ac o bosib yn annigol. Maent wedyn yn gallu symud i lety hirdymor, mwy addas pan fydd hwnnw ar gael, sy'n osgoi gorfod dychwelyd adref oherwydd diffyg eiddo addas.

Rydym wedi gweld pwysau gwirioneddol yn cael ei roi ar ein darparwyr arbenigol yn ystod 2023/24, oherwydd problemau recriwtio a chadw staff, yn ogystal â sgil effeithiau parhaus trawma yn gysylltiedig â'r pandemig. Mae hyn wedi'i waethygu ymhellach gan broblemau buddion a graddau cyflog gwahanol yn dibynnu ar y sefydliad maent yn gweithio iddo, gyda diffyg cyswllt gwirioneddol rhwng y sectorau statudol ac arbenigol. Mae hyn wedi arwain at gomisiynu dau adolygiad gwasanaeth, un i edrych ar ddarpariaeth Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig ar draws y rhanbarth a'r llall i edrych ar waith gyda Phlant a Phobl Ifanc wedi'u heffeithio gan VAWDASV. Bydd yr adolygiadau hyn a'r argymhellion sy'n deillio ohonynt yn cael eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau comisiynu yn y dyfodol a byddant yn cefnogi trafodaethau ynglŷn â chostau darpariaeth ar gyfer y dyfodol. Bydd dau adolygiad arall yn cael eu comisiynu yn ystod 2024/25, a fydd yn edrych ar waith Cyflawnwyr a Gwaith Trais Rhywiol.

Yn anffodus, daeth prosiect IRIS yng Ngogledd Cymru i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, oherwydd diffyg parhad cyllid, ond mae hyn yn adlewyrchu patrwm tebyg ar draws sawl rhan o Gymru. Mae Cadeirydd y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio yn gweithio gyda chydweithwyr ar y Bwrdd Partneriaeth VAWDASV Cenedlaethol i ystyried ariannu'r gwasanaeth hanfodol hwn ar sail Cymru gyfan.

Amcanion Strategol <i>(Beth sydd arnom ni eisiau ei wneud?)</i>	Gweithgaredd Tanategol <i>(Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?)</i>	Arweinydd / Perchennog <i>(Pwy fydd yn gwneud hyn?)</i>	Amserlen <i>Pryd fyddwn yn gwneud hyn?</i>	Canlyniadau/Allbwn/ Mesurau <i>(Beth yw llwyddiant?)</i>	Statws
VAWDASV 1 Herio agweddau'r cyhoedd tuag at VAWDASV drwy godi ymwybyddiaeth, a gwneud lle ar gyfer trafodaeth gyhoeddus gyda'r nod o'i leihau	Hyfforddiant Gwylwr - Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i'r cyhoedd o ran sut y gallant herio a mynd i'r afael ag agweddau niweidiol yn gysylltiedig â VAWDASV yn well.	Heddlu Gogledd Cymru / partneriaid y Ddyletswydd Trais Difrifol.	Yn parhau.	- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyhoeddus a phroffesiynol o'u rôl fel gwylwr a pharodrwydd i ymyrryd.	Oren Bydd hyfforddiant gwylwr yn rhan o gyflwyniad parhaus y Ddyletswydd Trais Difrifol.
	Rhannu ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru a deunyddiau marchnata Byw Heb Ofn gydag asiantaethau partner allweddol ac yna gydag asiantaethau partner lleol er mwyn iddynt hyrwyddo deunyddiau drwy eu tudalennau	Tîm VAWDASV Rhanbarthol / Partneriaid y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio.	Yn parhau.	- Hyrwyddo a rhannu dogfennau gydag Awdurdodau Lleol a gwasanaethau.	Oren I'w cwblhau yn ôl yr angen.

	cyfryngau cymdeithasol a gwefannau				
	Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i sicrhau bod calendr o ddigwyddiadau VAWDASV pwysig yn cael ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol a gwefannau ac ati.	Tîm VAWDASV Rhanbarthol a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol.	Ar unwaith	- Hyrwyddo digwyddiadau VAWDASV pwysig gan bartneriaid ar draws Gogledd Cymru.	Gwyrdd Wedi'i gwblhau ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.
	Herio agweddau diwylliannol a newid arferion a all danategu anffurfio organau cenhedlu benywod, trais yn seiliedig ar anrhydedd a phriodasau dan orfod.	Partneriaid Byrddau Bregusrwydd a Chamfanteisio	Yn parhau.	- Cynnydd mewn adroddiadau o gam-drin ar sail anrhydedd a BAWSO yn datblygu templed monitro. -	Oren Bu i BAWSO gefnogi 124 o ddiodefwr yn ystod 2023/24. Mae cyfarfod wedi'i drefnu gyda BAWSO i drafod monitro camdriniaeth ar sail anrhydedd.
				- Map o'r gefnogaeth sydd ar gael ar draws Gogledd Cymru ar wahân i wasanaethau a gomisiynir.	Oren Y Ffrwd Waith Ymchwil ac Anghenion i gyflwyno'r canfyddiadau o'r ymarfer mapio i'r Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio.

<p>VAWDASV 2</p> <p>Codi ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc, ac oedolion o bwysigrwydd perthnasau diogel, cyfartal ac iach, a'u grymuso i wneud dewisiadau personol cadarnhaol.</p>	<p>Ysgolion a cholegau i weithredu ethos wedi'i lywio gan drawma, gan alluogi pobl ifanc i deimlo'n ddiogel i ddatgelu camdriniaeth.</p>	<p>Ffrwd Waith Plant a Phobl Ifanc</p> <p>o dan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol</p>	<p>Yn parhau.</p>	<p>- Cynyddu'r adroddiadau o gam-drin domestig mewn ysgolion.</p>	<p>Oren</p> <p>Mae angen sefydlu statws oherwydd bod y ffrwd waith Plant a Phobl Ifanc o dan y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio wedi'i gohirio nes y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â sefyllfa'r gwaith mewn perthynas â strwythur y Bwrdd Diogelu a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.</p>
	<p>Ysgolion a cholegau i ddatblygu dull i weithio gyda phobl ifanc fel gwylwyr i hyrwyddo'r elfen o atal VAWDASV a newid cymdeithasol pellach.</p>	<p>Ffrwd Waith Plant a Phobl Ifanc o dan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.</p>	<p>Ddim yn gwybod eto.</p>	<p>- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'u rôl fel gwylwyr a pharodrwydd i ymyrryd.</p>	<p>Oren</p> <p>Mae angen sefydlu statws oherwydd bod y ffrwd waith Plant a Phobl Ifanc wedi'i gohirio nes y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â sefyllfa'r gwaith mewn perthynas â strwythur y Bwrdd Diogelu a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.</p>
	<p>Cyflwyno 'Don't Steal My Future' ledled ysgolion a cholegau Gogledd Cymru.</p>	<p>Arweinwyr Addysg ALL a Chanolfan Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC)</p>	<p>Yn parhau.</p>	<p>- Sefydlu systemau monitro a gwerthuso parhaus i olrhain cynnydd, mesur canlyniadau ac effaith, nodi meysydd ar gyfer</p>	<p>Oren</p> <p>Bu i RASASC adrodd bod 101 o sesiynau wedi cael eu darparu yn ystod 2023/24, a bod 5,061 o bobl wedi bod yn bresennol.</p>

				gwella yn cynnwys budd-ddeiliaid.	
	Defnyddio'r canfyddiadau o'r ymarfer mapio ymyrraeth i adolygu'r gwasanaethau a bylchau mewn gwasanaethau ym maes VAWDASV, gan ganolbwyntio'n benodol ar gyfleoedd atal ar y cam cyntaf sy'n herio ac yn newid gwerthoedd a normau cymdeithasol ac yn canolbwyntio ar fodelau rôl cadarnhaol i fechgyn a dynion sy'n byw yng Ngogledd Cymru.	Grŵp Comisiynu (Gwneud Penderfyniadau / Tîm VAWDASV Rhanbarthol.	2024/25	- Defnyddio'r canfyddiadau i lywio comisiynu gyda'r bwriad o ddatblygu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol a dynion ifanc i deimlo'n hyderus wrth herio naratif niweidiol o amgylch VAWDASV.	Oren Darparwyd hyfforddiant 'She is Not Your Rehab' i weithwyr proffesiynol ym mis Tachwedd 2023 ac roedd 35 o weithwyr proffesiynol yn bresennol. - Sesiwn ychwanegol wedi'i darparu i fechgyn a dynion ifanc yng Ngholeg Cambria. - Seminar wedi'i gynnal gan yr Athro Michael Flood, gan edrych ar sut i weithio gyda dynion a bechgyn i fynd i'r afael â chamdriniaeth. - Yn ystod 24/25, archwilio cyfleoedd megis darpariaeth hyfforddiant Men at Work drwy gyllid y Ddyletswydd Trais Difrifol.
VAWDASV 3 Rhoi mwy o ffocws ar ddal y rheiny sy'n	Darparu hyfforddiant priodol i weithwyr proffesiynol i sicrhau eu bod yn adnabod camdriniaeth ac effaith hynny ar ymgysylltiad y	Tîm Rhanbarthol VAWDASV.	Yn parhau.	- Gweithwyr proffesiynol yn fwy hyderus wrth adnabod a herio cyflawniad VAWDASV.	Oren Darparwyd Hyfforddiant 'Engage' Safe Lives i 102 o weithwyr proffesiynol yn ystod 2022/23.

cyflawni camdriniaeth i gyfrif a chefnogi'r rheiny sy'n ymddwyn mewn ffordd gamdriniol neu dreisgar i newid eu hymddygiad ac i beidio â throddu eto.	teulu cyfan â gwasanaethau.				- Wrth roi sgôr allan o 5 (5 = y mwyaf hyderus), bu i 88% o ymatebwyr roi sgôr o 4 – 5 am eu gwybodaeth am y maes hwn, yn ystod gwerthusiad 12 mis ar ôl yr hyfforddiant.
	Comisiynu adolygiad o'r Gwasanaeth Cyflawnwyr.	Tîm Rhanbarthol VAWDASV.	2024/25	- Nodi'r arferion da presennol ac ystyried sut y dylai'r 'cynnig' Ymyrraeth Cyflawnwyr edrych yng Ngogledd Cymru.	Oren Allan i dendr ar hyn o bryd.
	Gweithredu'r rhaglen Rhybuddio a Cham-drin mewn Perthynas (CARA) - rhaglen Rhybuddio Amodol a gynigir i bobl sydd wedi cael eu harestio am gam-drin domestig ond sydd eisiau gwneud newid cadarnhaol i'w hymddygiad.	Heddlu Gogledd Cymru.	2024/25	- Gostyngiad mewn aildroddu. Mae ymchwil Hampton Trust yn awgrymu bod troseddwr a gymerodd ran yn rhaglen CARA 35% yn llai tebygol o fod aildroddu, o'u cymharu â'r grŵp rheoli.	Oren Disgwyl i'w rhoi ar waith.
VAWDASV 4	Gweithredu Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol i sicrhau bod pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio mewn swyddi	Grŵp Datblygu'r Gweithlu Rhanbarthol.	Yn parhau.	- Cyfran uchel o weithwyr proffesiynol rheng flaen cymwys wedi'u hyfforddi i ymgymryd ag	Gwyrdd 5,673 o weithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi yng Nghrŵp 2.

Blaenoriaethu ymyrraeth gynnar ac atal.	sy'n wynebu'r cyhoedd wedi'u harfogi i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr VAWDASV.			ymholiad wedi'i dargeddu.	<ul style="list-style-type: none"> - 145 o weithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi yng Ngrŵp 3. - Cyflwyniad yr hyfforddiant yn parhau.
	Gofyn bod argymhelliad yr Adolygiad Dynladdiad Domestig i integreiddio ymwybyddiaeth o hunanladdiad i Hyfforddiant Gofyn a Gweithredu Grŵp 2 a Grŵp 3 yn cael ei weithredu.	Tîm Rhanbarthol VAWDASV / Grŵp Datblygu'r Gweithlu Rhanbarthol.	Erbyn diwedd Ch2 2024/25.	<ul style="list-style-type: none"> - Bydd gweithwyr proffesiynol sy'n ymgymryd â hyfforddiant Grŵp 2 a Grŵp 3 yn ymwybodol o'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â hunanladdiad a VAWDASV. 	<p>Oren</p> <p>Trafodaeth wedi'i chynnal gyda Llywodraeth Cymru a Chymorth i Ferched Cymru.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Penderfyniad wedi'i wneud i ystyried y cais fel rhan o adolygiad Gofyn a Gweithredu.
	Adolygu'r gwasanaethau a bylchau yn y gofod VAWDASV - gan ganolbwyntio'n benodol ar gyfleoedd atal ar y cam cyntaf.	Tîm Rhanbarthol VAWDASV.	2024/25	<ul style="list-style-type: none"> - Defnyddio systemau monitro a gwerthuso i olrhain cynnydd, mesur canlyniadau a nodi anghenion a bylchau mewn darpariaeth gwasanaeth. 	<p>Oren</p> <p>Ffrwd Waith Ymchwil ac Anghenion Aml-asiantaeth wedi'i sefydlu i adolygu anghenion sy'n dod i'r amlwg ac adrodd canfyddiadau i'r Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio gyda'r bwriad o lywio cyfleoedd comisiynu yn y dyfodol.</p>
	Adolygu'r llwybrau atgyfeirio a'u defnydd gan bartneriaid ar gyfer gwasanaethau	Ffrwd waith camdriniaeth ar sail anrhydedd ac arferion	2024/25	<ul style="list-style-type: none"> - Sicrhau bod llwybrau atgyfeirio yn cael eu sefydlu o fewn arferion cyfredol ar draws yr 	<p>Oren</p>

VAWDASV yng Ngogledd Cymru.	niweidiol / Tîm Rhanbarthol VAWDASV.		holl asiantaethau partner yng Ngogledd Cymru o ran Priodas dan Orfodaeth, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod a Gofyn a Gweithredu Grŵp 2 a Grŵp 3.	Llwybrau atgyfeirio ar gyfer Priodas dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn cael eu hadolygu. - Awdurdodau Lleol yn cael eu hannog i ddatblygu eu llwybrau lleol eu hunain ar gyfer ymholiadau Grŵp 2 a Grŵp 3.
Adolygu cyfleoedd comisiynu cynaliadwy yn y gofod VAWDASV, gan ddysgu o'r hyn sydd eisoes wedi'i gynnwys gan wasanaethau dan gontract.	Grŵp Comisiynu (Gwneud Penderfyniadau) / Ffrwd Waith Ymchwil ac Anghenion.	Yn parhau.	- Sefydlu systemau monitro a gwerthuso parhaus i olrhain cynnydd, mesur canlyniadau ac effaith, nodi meysydd ar gyfer gwella yn cynnwys budd-ddeiliaid.	Oren Mae'r Grŵp Comisiynu (Gwneud Penderfyniadau) yn adolygu cyfleoedd comisiynu newydd a phresennol yn barhaus yn unol â'r Fframwaith Comisiynu a'r Canllawiau Statudol ar gyfer comisiynu gwasanaethau VAWDASV yng Nghymru. - Nodwyd bod argaeledd tai i ddiodefwyr a theuluoedd yn bryder mawr. - Mae'r prosiect IRIS bellach wedi dod i ben a'i atal ar gyfer y dyfodol.
Ymgymryd ag agwedd meddwl trwy systemau mewn perthynas â VAWDASV ac archwilio sut mae gweithio mewn	Tîm Rhanbarthol VAWDASV / Heddlu Gogledd Cymru.	Yn parhau.	- Sicrhau bod ymagwedd system gyfan yn cael ei sefydlu ym mhob gwasanaeth ar draws y rhanbarth	Oren Gweithredu'r holl gamau perthnasol o ffrydiau gwaith

	partneriaeth yn cefnogi agwedd gyfannol o ran gofal estynedig i deuluoedd.			<p>yn unol â chynllun gweithredu lefel uchel y glasbrint gan Lywodraeth Cymru.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Annog gweithio mewn partneriaeth i ddiogelu dioddefwyr risg uchel o gam-drin domestig yn MARAC a thrwy ddarpariaeth Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig. 	<p>glasbrint Llywodraeth Cymru ar lefel ranbarthol.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Monitro effeithiolrwydd MARAC drwy Grŵp Llywio a samplu ar hap. - Mae angen craffu ar ganfyddiadau adolygiad y gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig i asesu effeithiolrwydd gwaith partneriaeth.
<p>VAWDASV 5</p> <p>Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol ac addas i ddioddefwyr a goroeswyr.</p>	<p>Gweithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol, i sicrhau bod hyfforddiant digonol yn cael ei roi i gefnogi dioddefwyr VAWDASV drwy ddefnyddio atebion sifil.</p>	<p>Heddlu Gogledd Cymru / Partneriaid Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF.</p>	<p>2024/25</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Cynnydd yn nifer y ceisiadau a'r gorchmynion gwaharddebau sifil sy'n cael eu cyflwyno, i ddiogelu dioddefwyr a goroeswyr VAWDASV. 	<p>Oren</p> <p>Mae cynllun y Ganolfan Genedlaethol Cam-drin Domestig yn cael ei roi ar brawf yng Ngogledd Cymru i gynyddu nifer y gwaharddebau sifil sy'n cael eu rhoi i ddiogelu dioddefwyr a goroeswyr.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cyflwyno hyfforddiant pellach ar gyfer gweithwyr proffesiynol cysylltiedig yn ystod 24/25.
	<p>Cefnogi gweithrediad a chyflwyniad safleoedd Tystiolaeth o Bell ar draws Gogledd Cymru.</p>	<p>Grŵp Tystiolaeth o Bell / Tîm Rhanbarthol VAWDASV.</p>	<p>Yn parhau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Mwy o gefnogaeth i ddioddefwyr a goroeswyr gan arwain at fwy o ddefnydd, cael y dystiolaeth orau a 	<p>Oren</p> <p>3 safle tystiolaeth o bell wedi'u sefydlu yn Llangedfni, Dolgellau a Wrecsam.</p>

				<p>sicrhau cynnydd o ran euogfarnau cyflawnwyr.</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Yn ystod mis Ionawr a mis Mawrth 2024, roedd Safleoedd Tystiolaeth o Bell yn cyfrif am 48% o achosion Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol troseddol - cynnydd o 24% yn y chwarter blaenorol. - Bu i 93% o bobl nodi eu bod yn ffafrio mesurau arbennig pan ofynnwyd iddynt rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2024.
	<p>Cefnogi cyflwyniad y cynllun Braenaru ar draws y rhanbarth.</p>	<p>Grŵp Tystiolaeth o Bell / Partneriaid Bregusrwydd a Chamfanteisio.</p>	<p>Yn parhau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Monitro defnydd y safleoedd tystiolaeth a mesurau arbennig mewn lleoliadau llys teulu. 	<p>Oren</p> <p>Cynllun peilot ar waith.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu cynnydd yn nefnydd safleoedd tystiolaeth o bell ar gyfer achosion llys teulu.
	<p>Cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth i'r Farnwriaeth a Phartneriaid Cyfiawnder Troseddol i herio naratif 'beio'r dioddefwr'.</p>	<p>Bwrdd Cyfiawnder Troseddol.</p>	<p>2024/25</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Cynnydd o ran nifer y cyflawnwyr sy'n eu cael canfod yn euog am droseddau'n ymwneud â VAWDASV. 	<p>Coch</p> <p>Mae sesiynau codi ymwybyddiaeth wedi cael eu darparu i Farnwyr a Phartneriaid Cyfiawnder Troseddol yng Ngorllewin a Chanolbarth Cymru, ac ystyriaeth wedi cael ei rhoi i ymestyn hyn i Ogledd Cymru.</p>

	Darparu cymorth arbenigol i ddiodefwyr yn seiliedig ar eu hanghenion unigol.	Ffrwd waith Ymchwil a Bylchau / Tîm VAWDASV Rhanbarthol.	Yn parhau.	<ul style="list-style-type: none"> - Sefydlu systemau monitro a gwerthuso parhaus i olrhain cynnydd, mesur canlyniadau ac effaith Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig a gwasanaethau lloches a chefnogaeth yn ôl yr angen, gan nodi meysydd ar gyfer gwella yn cynnwys budd-ddeiliaid. 	<p>Oren</p> <p>Mae Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig a MARAC yn darparu cynlluniau diogelwch unigol ar gyfer diodefwyr risg uchel.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mae Awdurdodau Lleol yn cael trafferth darparu llety ar gyfer diodefwyr a theuluoedd, fodd bynnag, agorwyd unedau newydd yng Nghonwy yn ystod 2023/24. - Mae darpariaeth gwasanaeth a chanlyniadau gwasanaeth yn parhau i gael eu monitro bob chwarter. - Arolwg defnyddiwr gwasanaeth wedi cael ei ddatblygu yn ystod 2023/24 i gasglu adborth.
VAWDASV 6 Rhoi mynediad cyfartal i bob diodefwyr at wasanaethau gydag adnoddau addas, sydd	Darparu gwasanaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig/Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol gyson ar draws y gogledd, gan gynnig yr un gwasanaeth i	Ffrwd Waith Ymchwil ac Anghenion / Grŵp Comisiynu (Gwneud Penderfyniadau / Tîm VAWDASV Rhanbarthol.	Yn parhau.	<ul style="list-style-type: none"> - Sefydlu systemau monitro a gwerthuso parhaus i olrhain cynnydd, mesur canlyniadau ac effaith, nodi meysydd ar gyfer gwella yn cynnwys budd-ddeiliaid. 	<p>Oren</p> <p>24 Eiriolwr Annibynnol Trais Domestig wedi'u cyflogi ar draws Gogledd Cymru, gan ragori ar argymhelliad Safe Lives o 13.5.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cefnogwyd 2,429 o ddiodefwyr yn ystod

o ansawdd uchel ac yn cael eu harwain gan a chryfderau, ac yn groestoriadol.	ddioddefwyr VAWDASV, waeth lle maent yn byw.				<p>2023/24 – cynnydd o 7% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mae'r adolygiad o'r Gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig wedi dod i ben a bydd y canfyddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio ym mis Mehefin 2024. - Argymhellion i'w rhoi ar waith a chomisiynu contract Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig newydd o 25/26.
			O fewn y tri mis nesaf.	<ul style="list-style-type: none"> - Mae'r adolygiad o'r Gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig wedi dod i ben a bydd y canfyddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio ym mis Mehefin 2024. - Argymhellion i'w rhoi ar waith. 	Oren
	Darparu cefnogaeth gyson ar draws y rhanbarth i blant a phobl ifanc sy'n profi ac yn dyst	Ffrwd waith Ymchwil a Bylchau / Tîm VAWDASV Rhanbarthol.	Gorffennaf 2024	<ul style="list-style-type: none"> - Sefydlu systemau monitro a gwerthuso parhaus i olrhain cynnydd, 	Oren

i gam-drin domestig yn y cartref.			mesur canlyniadau ac effaith, nodi meysydd ar gyfer gwella yn cynnwys budd-ddeiliaid.	Mae monitro'r ddarpariaeth i Blant a Phobl Ifanc yn parhau. - Mae'r adolygiad o gefnogaeth i Blant a Phobl Ifanc wedi dod i ben a bydd y canfyddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio ym mis Mehefin 2024.
Darparu rhaglenni adfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi dioddefwyr i fagu gwytnwch ac i gryfhau eu rhwydwaith o ffrindiau a theulu sy'n gallu eu cefnogi.	Grŵp Comisiynu Rhanbarthol VAWDASV.	Yn parhau.	<ul style="list-style-type: none"> - Cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n rhan o raglenni adfer. - Mapió'r hyn a gomisiynir ym mhob ardal ALL. 	Gwyrdd Mae'r rhaglenni presennol a gynigir i ddiodefwyr i feithrin gwytnwch yn cynnwys Own My Life, Freedom, Recovery Toolkit for Men, STAR, DART, ac ymriadau therapiwtig un i un ac mewn grŵp.
Darparu proses MARAC / ADAPT safonol ar draws y gogledd.	Grŵp Llywio MARAC / ADAPT Rhanbarthol.	Yn parhau.	<ul style="list-style-type: none"> - Mae pob dioddefwr risg uchel wedi'i glywed yn ystod Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg Lleol. - Parhau i edrych ar sampl o achosion ar hap bob chwarter. - Adolygu protocol MARAC. 	Oren Yn parhau. - Yn parhau. - Yn parhau.

				<ul style="list-style-type: none"> - Protocol ADAPT wedi'i adnewyddu. 	<ul style="list-style-type: none"> - Yn parhau.
	<p>Datblygu fframwaith neu ddull sawl haen</p> <p>- i sicrhau eglurder o ran beth yw ystyr 'arbenigwr' - sy'n mapio yn erbyn darpariaethau eraill (adolygiad Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig).</p>	Tîm Rhanbarthol VAWDASV.	2024/25	<ul style="list-style-type: none"> - Diffinio ystyr 'arbenigwr' a - mapio yn erbyn darpariaethau eraill ar draws Cymru. 	<p>Oren</p> <p>Daeth adolygiad gwasanaeth o ddarpariaeth Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig rhanbarthol i ben ym mis Ebrill 2024.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Bydd y canfyddiadau'n cael eu dadansoddi a'u cyflwyno i'r Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio ym mis Mehefin 2024. - Argymhellion i'w dwyn ymlaen.
	<p>Datblygu Fframwaith comisiynu cadarn</p> <p>- sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn galluogi</p> <p>gwneud penderfyniadau amddiffynadwy.</p>	Grŵp Comisiynu (Gwneud Penderfyniadau) / Ffrwd Waith Ymchwil a Bylchau.	Yn parhau.	<ul style="list-style-type: none"> - Datblygu cylch comisiynu, yn unol â'r Canllawiau Statudol ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau VAWDASV yng Nghymru 	<p>Oren</p> <p>Mae'r Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio yn sicrhau bod strwythurau llywodraethu ar wahân yn bodoli ar gyfer y broses gomisiynu a mewnbwn budd-ddeiliaid.</p>